**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Dr Andrew Goodall
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

23 Medi 2016

**Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Annwyl Dr Goodall,

Diolch i chi am eich gohebiaeth yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor blaenorol ynghylch *Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr*. Trafododd y Pwyllgor yr ymateb hwn yn ei gyfarfod ar 19 Medi, a nododd y cwestiynau a'r pryderon canlynol.

1. Mewn ymateb i argymhelliad 4, mae'r Pwyllgor yn teimlo bod cyfleoedd i'r byrddau iechyd rannu canlyniadau gwaith sy'n cael ei gomisiynu gyda byrddau iechyd eraill yn hytrach na gyda Llywodraeth Cymru yn unig. Byddai hyn yn helpu i greu amgylchedd lle caiff gwybodaeth ei rhannu er mwyn annog dysgu yn y GIG. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich sylwadau pellach ar yr ymateb i'r argymhelliad hwn ac mae hefyd yn gofyn i chi gyflwyno adroddiadau cynnydd rheolaidd (bob chwe mis) ynghylch yr adolygiad o'r cyfarwyddyd Gweithio i Wella, a sut mae'r byrddau iechyd yn derbyn hyn ac yn ei roi ar waith.
2. O ran argymhelliad 25 a defnyddio arolygwyr lleyg gwirfoddol fel rhan o drefniadau arolygu yn y dyfodol, nododd y Pwyllgor nad yw AGIC na Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Er y nodwyd y rhesymau dros beidio â derbyn yr argymhelliad, mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu y bydd dull gweithredu arfaethedig AGIC yn cyfyngu ar yr arolygwyr lleyg sy'n

meddu ar y sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â'r gwaith arolygu sydd angen ei wneud. Rwyf wedi ysgrifennu at Dr Chamberlain yn gofyn am y diweddaraf ynghylch i ba raddau y mae'r manteision a fwriadwyd yn sgil y ffordd newydd o ddefnydd arolygwyr lleyg yn cael eu cyflawni'n ymarferol. Rwy'n nodi o ymateb Llywodraeth Cymru ei bod hefyd yn bwriadu ceisio sicrwydd tebyg gan AGIC, ac felly byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich sylwadau pellach ar y pwynt hwn.

Rwy'n ymwybodol y byddwch yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 7 Tachwedd i drafod nifer o faterion cysylltiedig ag iechyd, ac rwy'n siŵr y bydd y mater hwn hefyd yn cael ei drafod yn ystod y sesiwn honno.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**